OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3285 (Cy.289) (C.134)

# POBL ANABL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007

*Gwnaed - - - - 15 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 20(4)(b) o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005;

ystyr "Deddf 1995" ("*the 1995 Act*") yw Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;(**3**).

### Cychwyn darpariaethau bathodyn glas o ran Cymru

**2.** 30 Mawrth 2008 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, ddod i rym—

(a) adran 9 (cydnabod bathodynau pobl anabl a ddyroddwyd y tu allan i Brydain Fawr);

(b) Rhan 2 o Atodlen 1 ac adran 19(1) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen honno;

(c) y cofnodion yn Atodlen 2 o ran Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**4**) a Deddf Rheoli Traffig 2004(**5**), ac adran 19(2) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cofnodion hynny.

(**1**) 2005 p.13.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) 1995 p.50. Cafodd Deddf 1995 ei diwygio ar sawl achlysur. Gwnaed diwygiadau arwyddocaol gan Ddeddf y Comisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd 1999 (p.17), gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (p.10), gan Reoliadau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (Diwygio) 2003 (O.S. 2003/1673), a chan Reoliadau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (Pensiynau) 2003 (O.S. 2003/2770).
(**4**) 1984 p.27.
(**5**) 2004 p.18.

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru.

15 Tachwedd 2007

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 ("y Ddeddf") yn diwygio'n helaeth Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ("Deddf 1995"), a gwneud darpariaethau penodol eraill.

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym "ddarpariaethau bathodyn glas" y Ddeddf, y mae ei rhychwant yn gyfyngedig i Gymru a Lloegr (adran 20(8)), o ran Cymru yn unig. Dyma yw darpariaethau'r bathodyn glas: adran 9, Rhan 2 o Atodlen 1, cofnodion penodol yn Atodlen 2 ac adran 19 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau hynny yn yr Atodlenni hynny (adran 20(10)).